

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(P)/VG/1381/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF9 1NA

9 Awst 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf ynghylch y Fframwaith Diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion 2017, a'r eglurhad am berthynas nyrsys ysgolion gyda disgyblion sydd â chyflyrau iechyd cronig neu hirdymor, gan gynnwys y canllawiau presennol ar anghenion gofal iechyd.

Mae'r fframwaith wedi'i lunio i gynnwys pob disgybl sydd mewn addysg prif ffrwd. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn wrth i Fframwaith Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion gael ei lansio ar gyfer Ysgolion Arbennig.

Mae'r fframwaith yn adlewyrchu strwythur Rhaglen Plant Iach Cymru ac yn cynnwys darpariaeth iechyd Gyffredinol, Ychwanegol a Dwys. Cafodd hyn ei wneud i sicrhau bod modd trosglwyddo'n ddi-dor rhwng yr ymwelydd iechyd a'r nyrs ysgol, gan gynnwys unrhyw faterion cymhleth ac anghenion gofal iechyd. Mae'r fframwaith yn nodi:

Dwys – ymyriadau eraill, ar sail asesu parhaus a dadansoddi anghenion mwy. Bydd y nyrs ysgol, wrth ymwneud ag anghenion iechyd plentyn neu berson ifanc, yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a chyfrannu'n briodol i gyflwyno'r cynllun y cytunwyd arno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, bydd y ddarpariaeth gwasanaeth dwys yn galluogi'r nyrs ysgol i fod yn hwylusydd rhwng gwasanaethau addysg, iechyd a gwasanaethau arbenigol, er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl yn amharu ar brofiad y dysgwr. Wrth wneud hynny, byddem yn disgwyl i sylw gael ei roi i'r canllawiau 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd'. Mae'r canllawiau'n pwysleisio'r angen am gydweithrediad rhwng gweithwyr proffesiynol yn y maes addysg a'r maes iechyd, gan osod y dysgwr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport